Department for Education

# Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Bargen Deg Newydd a chynyddu cyfraniadau aelodau'r Cynllun Pensiynau Athrawon (TPS) yn 2014-15

## Ymateb y Llywodraeth

**Mawrth 2014**

## Cynnwys


Cynnwys 2

Cyflwyniad 3

Cwmpas yr Ymgynghoriad 3

Mater Polisi 1 - Bargen Deg Newydd 3

- Cefndir 3
- Cynnig 3
- Gweithredu 4
- Cytundeb Cyfranogi 4
- Y gofyniad am fond, gwarant neu Indemniad 5
- Polisi 1 - Cwestiynau'r ymgyngoriad 6
- Ymatebion i'r ymgynghoriad 6
- Ymateb y Llywodraeth 7
- Y camau nesaf 8

Mater Polisi 2 - Cynyddu cyfraddau cyfraniadau aelodau 8

- Cefndir 8
- Y Cynnig 9
- Gweithredu 9
- Polisi 2 - Cwestiynau'r Ymgynghoriad 10
- Ymatebion i'r Ymgynghoriad 10
- Ymateb y Llywodraeth 11
- Crynodeb o'r Casgliadau a'r Camau Nesaf 13

Mater Polisi 3 - Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 14

- Cefndir 14
- Ymatebion i'r Ymgynghoriad 14
- Ymateb y Llywodraeth 14

### Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r ymatebion a gafwyd yn dilyn yr ymgynghoriad a lansiwyd ym mis Tachwedd 2013 ar Fargen Deg Newydd a chynyddu cyfraniadau aelodau'r Cynllun Pensiynau Athrawon (TPS) ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2014 hyd at fis Mawrth 2015.

## Cwmpas yr Ymgynghoriad

2. Diben yr ymgynghoriad oedd cael sylwadau a thystiolaeth ar ddull gweithredu'r Adran o ran cyflwyno trefniadau'r Fargen Deg Newydd i'r TPS a'r trefniadau ar gyfer cyfraddau cyfraniadau cyflogeion ar gyfer 2014-15 (cyfraniadau blwyddyn 3). Er mwyn hwyluso'r broses, nododd yr Adran gwestiynau penodol y byddai'n croesawu ymatebion iddynt, er yr estynnwyd gwahoddiad i'r ymgynghoreion ymateb ar unrhyw agwedd ar y cynigion.
3. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ddiwygiadau i'r cynllun sy'n ofynnol o ganlyniad i gyflwyno Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013.
4. Dim ond i'r ymgynghoriad ar Fargen Deg Newydd a chynyddu cyfraniadau yn 2014-15 y mae'r ymatebion y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn berthnasol.

## Mater Polisi 1 - Bargen Deg Newydd

## Cefndir

5. Mae'r Fargen Deg yn bolisi anstatudol, a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi (y Trysorlys), sy'n nodi sut yr ymdrinnir â phensiynau pan gaiff staff eu trosglwyddo'n orfodol o'r sector cyhoeddus i ddarparwyr annibynnol sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.
6. Cyhoeddwyd "Staff Transfers from Central Government: A Fair Deal for Staff Pensions", gan y Trysorlys ym mis Mehefin 1999, a chyflwynodd y Fargen Deg. (Cyhoeddwyd canllawiau pellach ym mis Mehefin 2004.) Y dull gweithredu newydd a nodwyd oedd lle y câi aelodau o staff eu trosglwyddo'n orfodol o'r sector cyhoeddus, y byddai eu cyflogwr newydd yn trefnu iddynt allu ymuno â chynllun pensiwn galwedigaethol a oedd yn gymharol debyg i'r cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus roeddent yn ei adael; roedd y diogelwch hwn yn berthnasol i unrhyw drosglwyddiadau gorfodol dilynol.

## Cynnig

7. Ar 4 Gorffennaf 2012, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'r Fargen Deg yn cael ei diwygio. Y cynnig polisi newydd oedd ehangu mynediad i bensiynau'r

gwasanaeth cyhoeddus. Byddai'n berthnasol i aelodau o staff a gâi eu symud o'r sector cyhoeddus i gontractwr annibynnol drwy drosglwyddiad gorfodol (h.y. trosglwyddiad o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE)). Bydd staff o'r fath yn parhau i fod yn aelodau o'r cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yr oeddent yn aelodau ohono yn union cyn trosglwyddo, a dylent barhau'n rhan o'r cynllun hwnnw, o dan yr un telerau ag aelodau eraill, ar gyfer y trosglwyddiad cychwynnol a throsglwyddiadau TUPE dilynol.

8. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y polisi Bargen Deg diwygiedig. Gellir gweld ymateb y Trysorlys i'r ymgynghoriad ar y polisi Bargen Deg yma. Cyhoeddwyd canllawiau ym mis Hydref 2013 (ar gael yma) gan y Trysorlys ac mae'r Adran wedi ystyried sut i roi'r trefniadau ar waith gan ystyried ar yr un pryd sut y gellir rheoli ac ymdopi â'r broses heb amlygu'r cynllun i risg ariannol.

## Gweithredu

9. Mae angen ehangu mynediad i'r TPS er mwyn caniatáu mynediad i'r math o gyflogwr a oedd wedi'i eithrio yn flaenorol yn unol â chanllawiau'r Fargen Deg Newydd a ddarparwyd gan y Trysorlys. Y bwriad yw caniatáu i aelodau unigol barhau i gael mynediad i'r TPS tra y byddant yn parhau wedi'u cyflogi ar y contract allanol, a bydd y mynediad hwn hefyd yn parhau yn dilyn unrhyw drosglwyddiad(au) gorfodol dilynol, ar yr amod bod y trosglwyddiad hwnnw yn ymwneud â'r un contract gwasanaeth cyhoeddus.

10. Ymhob achos, cynigir mai'r dewis opsiwn fydd i'r cyflogwr newydd sicrhau y gall staff sy'n trosglwyddo barhau i gael mynediad i'r TPS. Gall fod amgylchiadau eithriadol lle y bydd rhesymau arbennig dros beidio â darparu mynediad parhaus i'r TPS i gyflogwyr a dylid trafod yr amgylchiadau hyn gyda gweinyddwyr y cynllun a'r Adran. Os felly, yna bydd Canllawiau'r Fargen Deg flaenorol yn parhau'n berthnasol, gan ei gwneud yn ofynnol i gyflogeion gael mynediad i gynllun cymharol debyg.

11. Os na fydd y naill opsiwn na'r llall ar gael, y cynnig o dan y canllawiau newydd fydd y bydd y cyflogwr allanol yn ystyried p'un a ddylid cynnig iawndal i'r staff sy'n trosglwyddo - rhaid gwneud hyn drwy ymgynghori â staff neu gynrychiolwyr staff. Byddai angen cymryd cyngor actiwaraidd ar gyfrifo unrhyw iawndal o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, a gellir ystyried telerau swmpdrosglwyddo hefyd.

## Cytundeb Cyfranogi

12. Caiff Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2010 (TPR), sy'n llywodraethu TPS, eu diwygio er mwyn sicrhau y gall staff sy'n trosglwyddo barhau i gael mynediad i'r cynllun. Bydd y mynediad parhaus hwn hefyd yn dibynnu ar y corff sy'n cyfranogi a'r awdurdod contractio yn llofnodi Cytundeb Cyfranogi, ac yn cyflawni unrhyw rwymedigaethau o dan y Cytundeb Cyfranogi a/neu'r TPS, e.e. darparu gwybodaeth am y staff sy'n trosglwyddo (gweler isod). Unwaith y bydd gweinyddwr y cynllun, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yn fodlon bod y rhwymedigaethau hyn wedi'u cwblhau, bydd gweinyddwr y cynllun yn cadarnhau mynediad i'r cynllun. Bydd y diwygiadau i'r TPR yn ei gwneud yn ofynnol i'r broses hon gael ei chwblhau cyn y dyddiad arfaethedig ar gyfer trosglwyddo'r staff, er y cynigir y dylid diwygio'r rheoliadau er mwyn sicrhau y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ehangu'r terfyn amser hwnnw.

13. Darperir y Cytundeb Cyfranogi gan yr Ysgrifennydd Gwladol a bydd yn nodi rhwymedigaethau'r darparwr a'r awdurdod contractio, yn ogystal â'r rhwymedigaethau sy'n ofynnol o dan y rheoliadau drwy rinwedd y ffaith y derbynnir y darparwr fel cyflogwr. Caiff Cytundeb Cyfranogi enghreifftiol ei gyhoeddi ar wefan Teachers' Pensions.

14. Cynigir y caiff y TPR eu diwygio er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr gofrestru pob aelod o staff cymwys yn awtomatig i'r TPS, gan gynnwys y rhai hynny a benderfynodd eithrio o'r TPS yn flaenorol, ar ddiwrnod cyntaf y contract newydd. Bydd hyn yn pennu hawl i gymryd rhan yn y cynllun, a gall unigolion ddewis eithrio unwaith eto ar ôl hyn. O'r adeg hon ymlaen, daw'r brif ddeddfwriaeth o ran cofrestru awtomatig i rym fel y gwna ar gyfer pob aelod arall o'r cynllun.

15. Bydd y Cytundeb Cyfranogi yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr allanol roi manylion yr unigolion sy'n trosglwyddo i'r cyflogwr newydd a fydd yn parhau'n gymwys i fod yn aelodau o'r TPS i weinyddwyr y cynllun.

## Y gofyniad am fond, gwarant neu Indemniad

16. Disgwylir i gontractwyr gydymffurfio â'r Cytundeb Cyfranogi. Fodd bynnag, cynigir y dylid diwygio'r rheoliadau er mwyn sicrhau pan fydd cyflogwr wedi methu â chyflawni ei rwymedigaethau, neu lle y bydd pryderon na fydd cyflogwr o bosibl yn cyflawni ei rwymedigaethau, y gall yr Adran ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr ategu ei gais â bond, gwarant neu indemniad, a fydd yn rhoi sicrwydd ariannol i'r cynllun, yn enwedig o ran cyfraniadau gan aelodau a chyflogwyr.

## Polisi 1 Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1**:  A ydych yn cytuno â dull arfaethedig yr Adran ar gyfer deddfu i ddarparu ar gyfer Canllawiau'r Fargen Deg Newydd?

**Cwestiwn 2**:  A ydych yn cytuno y bydd geiriad arfaethedig y Cytundeb Cyfranogi yn helpu i sicrhau y bydd cyflogwyr newydd yn y TPS yn cyflawni eu rhwymedigaethau?

**Cwestiwn 3**:  A ydych yn cytuno bod y cynnig i ganiatáu i'r Adran ofyn am fond, indemniad neu warant yn ffordd gymesur ac effeithiol o ddiogelu aelodau a chyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun ar hyn o bryd?

**Cwestiwn 4**: A ydych o'r farn bod yna faterion cydraddoldeb sy'n golygu y caiff y broses o roi'r Fargen Deg Newydd ar waith mewn perthynas â'r TPS effaith anghymesur ar unrhyw grwpiau gwarchodedig? Os felly, beth yw'r effaith anghymesur yn eich barn chi?

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

17. Er y cafwyd 47 o ymatebion i'r ymgynghoriad, dim ond 10 ohonynt a ymatebodd yn benodol i'r cwestiynau am y Fargen Deg Newydd, a dewisodd sawl un ohonynt beidio ag ateb rhai o'r cwestiynau penodol neu bob un o'r cwestiynau penodol.  Dewisodd llawer o'r ymatebwyr eraill gyflwyno gwrthwynebiadau i ddiwygiadau ehangach sy'n mynd rhagddynt.

18. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan undebau athrawon (7), er bod dau sefydliad cyflogwyr, yn cynrychioli'r sector Addysg Uwch ac Addysg Bellach, ac un brifysgol hefyd wedi ymateb.

19. O ran Cwestiwn 1, roedd hanner yr ymatebwyr yn cytuno â dull arfaethedig yr Adran ar gyfer deddfu i ddarparu ar gyfer trefniadau'r Fargen Deg Newydd, nid oedd dau yn cytuno, nid oedd un yn siŵr ac nid ymatebodd dau ohonynt.

20. O ran Cwestiwn 2, roedd saith ymatebwr yn cytuno y bydd geiriad arfaethedig y Cytundeb Cyfranogi yn helpu i sicrhau y bydd cyflogwyr newydd yn y TPS yn cyflawni eu rhwymedigaethau.  Nid oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno, nid oedd un yn siŵr ac nid ymatebodd dau ohonynt.  Gwnaeth dau ymatebwr awgrymiadau o ran gwella eglurder y geiriad, a chaiff yr awgrymiadau hyn eu cynnwys mewn templed wedi'i ddiweddaru o'r Cytundeb Cyfranogi.

21. O ran Cwestiwn 3, roedd hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod y cynnig i ganiatáu i'r Adran ofyn am fond, indemniad neu warant yn ffordd gymesur ac effeithiol o ddiogelu aelodau a chyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun ar hyn o bryd. Roedd un ymatebwr yn anghytuno, nid oedd dau yn siŵr ac nid ymatebodd dau ohonynt.

22. O ran Cwestiwn 4, roedd un ymatebwr o'r farn bod materion cydraddoldeb a fyddai'n golygu y câi'r broses o roi'r Fargen Deg Newydd ar waith mewn perthynas â'r TPS effaith anghymesur ar grwpiau gwarchodedig.  Nid oedd tri o'r farn bod unrhyw faterion cydraddoldeb, nid oedd tri yn siŵr ac nid ymatebodd tri ohonynt i'r cwestiwn.

23. Nododd rhai ymatebwyr bryderon am y ffaith nad eglurwyd sefyllfa sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch (AB/AU) yn yr ystyr y cyfeiriwyd at ymgynghoriad a chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi (y Trysorlys) ar hynny ond nad oedd y Trysorlys wedi cyhoeddi ei hymateb i'r ymgynghoriad hwnnw eto.

24. Ar y cyfan, roedd yr undebau a ymatebodd o'r farn y dylid rhoi trefniadau'r Fargen Deg Newydd ar waith i bawb, fel y câi pob aelod sy'n gweithio yn y sector AU/AB ar hyn o bryd eu cynnwys, ond roedd y cyflogwyr a ymatebodd o'r farn gan nad oedd sefydliadau AU yn rhan o drefniadau'r Hen Fargen Newydd, y dylent allu dewis p'un a ddylid rhoi'r trefniadau newydd ar waith ai peidio. Roeddent o'r farn gan nad yw'r canllawiau yn statudol ac mai dim ond i rai cyrff penodol o fewn y sector cyhoeddus y maent yn berthnasol, na ddylent fod yn orfodol o fewn y sector AU/AB.

25. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y ffaith mai dim ond i aelodau o staff a gâi eu symud o'r sector cyhoeddus i gyflogwr yn y sector preifat drwy drosglwyddiad gorfodol (h.y. trosglwyddiad o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE)) y byddai trefniadau'r Fargen Deg Newydd yn berthnasol.  Nodwyd ganddynt na chaiff mynediad i'r cynllun ei ymestyn i aelodau newydd o staff a gyflogir ar ôl dechrau'r contract newydd - byddai hyn yn arwain at weithlu "dwy haen", lle byddai rhai aelodau o staff yn gymwys i ymaelodi â'r cynllun ond ni fyddai aelodau eraill o staff.

## Ymateb y Llywodraeth

26. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gyffredinol o blaid y cynigion i gynnwys trefniadau'r Fargen Deg Newydd o fewn y TPS. Roedd y meysydd pryder a godwyd yn ymwneud ag ehangu'r polisi i'r sector AU/AB ac mae safbwyntiau ar y mater hwn wedi'u polareiddio gan ddibynnu p'un a yw'r ymatebwr yn cynrychioli cyflogeion neu gyflogwyr.

27. Mae'r Adran yn cydnabod bod pryderon o ran p'un a fydd y Fargen Deg Newydd yn berthnasol i'r sector AU/AB.  Fodd bynnag, cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân ar y mater hwnnw gan y Trysorlys ac mae canllawiau'r Trysorlys yn egluro nad yw'n ofynnol i'r sectorau hynny roi canllawiau'r Fargen Deg Newydd ar waith, er y gallant wneud hynny os byddant yn dymuno.  Mae'r Adran o'r farn bod y trafodaethau a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd er mwyn datblygu'r canllawiau hyn wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r mater hwn.

28. Caiff safbwynt y Trysorlys ei adlewyrchu yn nhrefniadau'r TPS gan y bydd y trefniadau hyn yn hwyluso'r penderfyniadau polisi hynny. Ni fydd y Fargen Deg Newydd yn orfodol yn y sector AU/AB ond bydd cyflogwyr yn gallu dewis rhoi'r trefniadau ar waith. Mae'r Trysorlys hefyd wedi awgrymu y dylid cynnal adolygiad ar ôl dwy flynedd er mwyn ystyried y mater mewn perthynas â nifer y sefydliadau AU/AB sydd wedi dewis cymryd rhan.

## Y camau nesaf

29. Er mwyn ategu'r broses o gyflwyno'r trefniadau, caiff strategaeth gyfathrebu ei datblygu a fydd yn cynnwys cyhoeddi canllawiau a chytundeb cyfranogi enghreifftiol ar wefan Teachers' Pensions. Caiff y cytundeb cyfranogi enghreifftiol ei ddiwygio i adlewyrchu awgrymiadau a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori, ac adolygiad pellach gan yr Adran.
30. Gwneir diwygiadau priodol i Reoliadau Pensiynau Athrawon 2010 er mwyn rhoi grym cyfreithiol i'r newidiadau arfaethedig ar 1 Ebrill 2014. Caiff y darpariaethau angenrheidiol hefyd eu cynnwys yn y trefniadau ar gyfer y TPS diwygiedig, a ddaw i rym ym mis Ebrill 2015.

## Mater Polisi 2 - Cynyddu cyfraddau cyfraniadau aelodau

## Cefndir

31. Mae darparu pensiynau o ansawdd da yn dod yn fwy heriol o ystyried bod disgwyliad oes yn cynyddu. Dyna pam y sefydlodd y Llywodraeth y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (IPSPC) a gaiff ei gadeirio gan yr Arglwydd Hutton i wneud argymhellion o ran sut y gellir sicrhau bod pensiynau o'r fath yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy, tra'n parhau'n deg i'r gweithlu ac i drethdalwyr.
32. Fel rhan o'i adolygiad, lluniodd IPSPS adroddiad interim yn ystyried "yr achos dros gyflawni arbedion ar bensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus o fewn cyfnod yr adolygiad o wariant - yn gyson ag ymrwymiad y Llywodraeth i ddiogelu'r rheini ar incwm isel - er mwyn cyfrannu at ymdrechion i leihau'r diffyg strwythurol." Yn ei adroddiad interim dyddiedig 7 Hydref 2010, argymhellodd yr Arglwydd Hutton fod hirhoedledd cynyddol a'r anghydbwysedd rhwng cyfraniadau cyflogwyr a chyflogeion yn rhesymau cadarn dros wneud newidiadau byrdymor i gyfraniadau pensiwn tra'n aros i'r cynlluniau gael eu hailgynllunio i raddau mwy sylweddol.

33. Mae'r Cylch Gorchwyl, yr Adroddiad Interim (dyddiedig Hydref 2010) a'r Adroddiad Terfynol (dyddiedig Mawrth 2011) ar gael yn http://www.hm-treasury.gov.uk/indreview_johnhutton_pensions.htm

34. Ar 19 Gorffennaf 2011, nododd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yr egwyddorion a fyddai'n berthnasol i unrhyw gynnydd o ran cyfraniadau i aelodau cynlluniau pensiwn nas ariannwyd y gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y Cynllun Pensiynau Athrawon (TPS). Gwneir cyfanswm o £2.8 biliwn o arbedion cyffredinol bob blwyddyn ar draws cynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus erbyn 2014-15. Mae'r newidiadau hyn yn cyfateb i gynnydd cyfartalog o 3.2 pwynt canran mewn cyfraniadau i aelodau cynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus. Disgwyliwyd i'r arbedion hyn gael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o dair blynedd gan ddechrau ym mis Ebrill 2012, ar sail 40%:80%:100%.

35. Mae'r cynnydd arfaethedig mewn cyfraniadau yn adlewyrchu'r egwyddorion a nodwyd gan y Llywodraeth ac fe'i cynlluniwyd er mwyn sicrhau mai'r rheini sy'n ennill fwyaf sy'n talu'r cynnydd pwynt canran uchaf. Mae'r cynigion hefyd yn diogelu'r rheini sy'n ennill lleiaf ac fe'u cynlluniwyd i annog cymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan yn y cynllun.

## Y Cynnig

36. Ym mis Gorffennaf 2011, ymgynghorodd yr Adran ar newidiadau Blwyddyn 1 arfaethedig i gyfraddau cyfraniadau ar gyfer aelodau'r Cynllun Pensiynau Athrawon (TPS). Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, cyflwynwyd cyfraniadau haenog i'r TPS o fis Ebrill 2012.

37. Wrth ddatblygu'r strwythur haenog, gweithiodd yr Adran yn agos â chynlluniau eraill y gwasanaeth cyhoeddus a Thrysorlys EM er mwyn sicrhau bod y cynnydd mewn cyfraniadau yn adlewyrchu amgylchiadau aelodau'r TPS, ac ystyriodd yr effaith ar wahanol garfanau o aelodau. Roedd y cynnydd mewn cyfraniadau yn adlewyrchu'r egwyddorion a nodwyd gan y Llywodraeth ac fe'i cynlluniwyd er mwyn sicrhau mai'r rheini sy'n ennill fwyaf sy'n talu'r cynnydd pwynt canran uchaf. Mae'r haenau hefyd yn diogelu'r rheini sy'n ennill lleiaf ac fe'u cynlluniwyd i annog cymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan yn y cynllun.

38. Ar 26 Hydref 2012, lansiodd yr Adran ymgynghoriad ar gyfraddau cyfraniadau Blwyddyn 2 arfaethedig i aelodau. Ar ôl trafod gydag Undebau Llafur a chynrychiolwyr cyflogwyr, cyflwynodd yr ail gam hwn o gyfraniadau haenog haen ychwanegol. Diben cyflwyno 8fed haen oedd darparu diogelwch ychwanegol i'r rheini sy'n ennill ar lefelau canolig a sicrhau y caiff costau eu dosbarthu'n deg.

## Gweithredu

39. Mae'r cyfraddau cyfraniadau arfaethedig ar gyfer 2014-15, yr ymgynghorodd yr Adran yn eu cylch, fel a ganlyn:

| Enillion blynyddol pensiynadwy yn ystod y flwyddyn berthnasol (£) | | Cyfradd Cyfraniadau yn 2013-14 | Cynnydd (yn erbyn 2012-13) |
|---|---|---|---|
| **Isaf** | **Uchaf** | **Haen %** | **Haen %** |
| Islaw | £14,999 | 6.4% | 0.0% |
| £15,000 | £25,999 | 7.2% | 0.2% |
| £26,000 | £31,999 | 8.3% | 0.4% |
| £32,000 | £39,999 | 9.5% | 0.7% |
| £40,000 | £44,999 | 9.9% | 0.7% |
| £45,000 | £74,999 | 11.0% | 0.9% |
| £75,000 | £99,999 | 11.6% | 1.0% |
| £100,000 | | 12.4% | 1.2% |

40. Wrth ddatblygu'r strwythur hwn, mae'r Adran wedi rhoi sylw penodol i bryderon y gall cynyddu cyfraddau cyfraniadau aelodau arwain at lefel uwch o bobl yn eithrio. Ers mis Ebrill 2012, bu'r Adran yn monitro nifer y bobl sy'n eithrio o'r TPS. Nid yw'r dadansoddiad o gyfraddau eithrio wedi dangos unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod nifer yr aelodau sy'n eithrio wedi cynyddu o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyfraniadau.

41. Cynnig yr Adran, fel y nodir yn y tabl uchod, yw parhau i gyflwyno'r strwythur cyfraniadau fel y'u gweithredwyd ym mis Ebrill 2013, gan gynyddu'r cyfraddau cyfraniadau er mwyn sicrhau'r flwyddyn olaf o arbedion.

42. Bydd y strwythur hwn yn arwain at gynnydd cyfartalog o 0.6 pwynt canran mewn cyfraniadau ar y cyfraddau a weithredwyd yn 2013.

43. Felly byddai cyflog blynyddol clir aelod sy'n ennill £35,000 yn 2014-15 yn gostwng £174 a byddai cyflog aelod sy'n ennill £50,00 yn ystod yr un cyfnod yn gostwng £276.

## Polisi 2 - Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**Cwestiwn 5**: A ydych yn cytuno y bydd strwythur arfaethedig yr Adran yn bodloni ymrwymiad y llywodraeth i ddiogelu'r rheini sy'n ennill lleiaf a'r cynnydd uchaf i'r rheini sy'n ennill mwy.

**Cwestiwn 6**: A oes unrhyw ganlyniadau yn deillio o'r haenau cyfraniadau arfaethedig nad ymdriniwyd â hwy yn eich barn chi?

Wrth ddatblygu'r strwythur arfaethedig ar gyfer haenau cyfraniadau aelodau, mae'r Adran wedi rhoi sylw priodol i'n cyfrifoldebau cydraddoldeb fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldebau 2010.

**Cwestiwn 7**: A ydych o'r farn bod yna faterion cydraddoldeb sy'n golygu y caiff y strwythur cyfraniadau arfaethedig effaith anghymesur ar unrhyw grwpiau gwarchodedig? Os felly, beth yw'r effaith anghymesur yn eich barn chi?

## Ymatebion i'r Ymgynghoriad

44. Er y cafwyd 47 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyffredinol, ni chyflwynodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sylwadau ar gyfraniadau Blwyddyn 3. O'r 15 o ymatebion a gafwyd mewn perthynas i gyfraniadau Blwyddyn 3, dewisodd sawl un i beidio ag ateb rhai o'r cwestiynau penodol neu bob un ohonynt.

45. O'r 14 o ymatebion i gwestiwn 5, roedd saith yn anghytuno y bydd y strwythur arfaethedig yn bodloni ymrwymiadau'r llywodraeth, roedd pump yn cytuno ac nid oedd dau ohonynt yn siŵr.

46. O'r rheini a oedd yn cytuno, nododd sawl un mai dim ond ymateb i'r cwestiwn penodol oeddent ac na ddylid ystyried eu bod yn cytuno â'r cynigion i ddiwygio'r TPS yr oeddent yn dal i wrthwynebu iddynt. Ymatebwyr unigol oedd y rhan fwyaf o'r rheini a oedd yn anghytuno.

47. Codwyd pryderon nad yw'r strwythur yn diogelu'r rheini ar gyflogau isel, gydag un ymatebwr yn nodi bod y band cyflog isaf ar gyfer athrawon heb gymhwyso yn dechrau uwchlaw uchafswm haen 1.

48. O'r 13 o ymatebion i gwestiwn 6, nododd saith eu bod o'r farn bod canlyniadau nad ymdriniwyd â hwy ac nid oedd chwech ohonynt yn siŵr.

49. Ymhlith y meysydd yr awgrymwyd y dylid eu hystyried ymhellach roedd:

    - y ffaith bod cyfraddau cyfraniadau ar gyfer staff rhan amser yn parhau i gael eu pennu yn ôl cyflog cyfwerth ag amser llawn (CALl);
    - cynnydd posibl yn y cyfraddau eithrio;
    - effaith bosibl yr haenau uwch ar recriwtio i swyddi arweinyddiaeth;
    - effaith bosibl rhyddhad treth ar gyfraniadau ar gyflog clir;
    - pryderon bod y band £45,000 - £75,000 yn rhy eang;
    - effaith anghymesur bosibl ar athrawon sy'n gweithio yn Llundain;
    - y ffaith bod angen strategaeth gyfathrebu gadarn o ystyried bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal mor agos at y cyfnod gweithredu a'r effaith bosibl sy'n gysylltiedig ag hysbysu cyflogwyr ac aelodau yn hwyr.

50. O'r 12 o ymatebion i gwestiwn 7, nid oedd pump ymatebwr yn siŵr a fyddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar unrhyw grwpiau gwarchodedig, tynnodd pedwar ymatebwr sylw at bryderon y byddai effaith ar rai grwpiau ac nid oedd tri ohonynt yn ymwybodol o unrhyw faterion cydraddoldeb.

51. Codwyd pryderon y gallai'r effaith ar staff rhan amser gael effaith anghymesur ar grwpiau gwarchodedig ac nad oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd gan yr Adran yn ddigonol.

52. Manteisiodd ymatebwyr hefyd ar y cyfle i gyflwyno eu gwrthwynebiadau unwaith eto i ddiwygiadau cyffredinol fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Ymhlith y materion a godwyd roedd:

- fforddiadwyedd cynnydd mewn cyfraniadau i aelodau, yn enwedig o gofio bod cyflogau wedi'u rhewi ac mai dim ond codiadau cyflog bach iawn a gafwyd;
- ni chynhaliwyd prisiad ac ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau hyd nes y caiff ei gwblhau;
- y ffaith bod buddiannau aelodau yn lleihau;
- dylid rhoi cyfle i'r cynllun capio a rhannu gyflawni arbedion cyn cyflwyno unrhyw gynnydd mewn cyfraniadau.

## Ymateb y Llywodraeth

53. Mae'r Adran yn cydnabod yr holl bwyntiau a wnaed, ond fe'u hystyriwyd yn fanwl wrth bennu'r cyfraddau cyfraniadau ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol. Daeth yr Adran i'r casgliad, yn dilyn ymgynghoriad, mai'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd oedd y dull a oedd yn darparu'r gyfatebiaeth orau rhwng yr angen i gynyddu cyfraddau cyfraniadau a'r angen i ymdrin â'r materion hyn yn briodol.

54. Wrth ddylunio'r strwythur haenog arfaethedig ar gyfer 2014-15, roedd yr Adran o'r farn ei bod yn briodol, felly, parhau â'r strwythur a ddefnyddiwyd yn 2013-14 er mwyn cyflawni'r 20% nesaf o arbedion sy'n ofynnol gan y Trysorlys. Bydd hyn yn helpu aelodau i ddeall y newidiadau ac yn lleihau'r effaith ar gyflogwyr pan gaiff y strwythur ei roi ar waith.

55. Bu undebau a chyflogwyr yn rhan o'r trafodaethau drwy gydol y broses ddylunio.

56. O ran y pwyntiau penodol a godwyd:

- mae'r Adran o'r farn ei bod wedi sicrhau diogelwch priodol i'r rheini ar gyflogau isel gan nad yw cyfraniadau'r rheini sy'n ennill llai na £15,000 wedi cynyddu o gwbl ac mai cynnydd bach o 0.2% a fu o ran cyfraniadau'r rheini sy'n ennill rhwng £15,000 a £26,000;

- mae'r data ar gyflogau a ddefnyddiwyd gan yr Adran yn awgrymu bod 727 o aelodau yn cael cyflog CALl islaw £15,000, ac felly ystyrir bod yr haen islaw £15,000 yn briodol o hyd;

- mae'r Adran yn parhau i fonitro data eithrio ac ni welwyd unrhyw gynnydd sylweddol o ganlyniad i'r diwygiadau, bydd y gwaith monitro yn parhau drwy gydol y broses ddiwygio;

- mae'r Adran yn cytuno, gan fod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal mor agos at y cyfnod gweithredu, fod angen iddi sicrhau y caiff y strwythur terfynol ei gyfleu'n glir i gyflogwyr ac aelodau ac mae wedi gweithio gyda Teachers' Pensions er mwyn sicrhau bod strategaeth gyfathrebu gadarn ar waith;

57. Serch hynny, bydd yr Adran yn ystyried y meysydd hyn ymhellach mewn perthynas â chyfraniadau ar ôl 2015 a bydd yn cynnwys undebau a chyflogwyr mewn trafodaethau ar y mater hwn. Cynhelir ymgynghoriad pellach ar strwythur cyfraddau cyfraniadau ar ôl 2015 yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.

58. Codwyd y pryderon o ran cydraddoldeb a grybwyllwyd yn flaenorol gyda'r Adran ac fe'u hystyriwyd o fewn asesiad cynhwysfawr yr Adran o faterion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, fel y'i cofnodwyd yn yr Asesiad cyhoeddedig o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r diweddariad i'r asesiad hwnnw. Rhoddwyd ystyriaeth bellach i'r materion hynny wrth bennu cyfraddau cyfraniadau ar gyfer Blwyddyn 3, ac mae'r Adran o'r farn ei bod wedi cydymffurfio'n briodol â'i rhwymedigaethau o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

59. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Adran roi sylw dyledus i'r angen i ddileu achosion o wahaniaethu, i hybu cyfle cyfartal ac i feithrin cydberthnasau da rhwng gwahanol bobl wrth gyflawni eu gweithgareddau.

60. Mae'r Adran wedi defnyddio'r holl ddata sydd ar gael ac wedi ymgynghori'n helaeth ar y cynigion ac ar yr effeithiau ar gydraddoldeb. Mae'r Adran wedi cydnabod nad oes unrhyw ddata ar gael neu mai dim ond data cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer rhai grwpiau penodol â nodweddion gwarchodedig ac mae'n cymryd camau gyda gweinyddwr y cynllun i ymdrin â hyn yn y dyfodol. Nid yw'r ffaith nad oes data cyflawn ar gael yn golygu nad yw'r dadansoddiad cydraddoldeb a gynhaliwyd yn ddilys ac mae'r Adran wedi ystyried y dystiolaeth a'r safbwyntiau sydd ar gael wrth lunio ei chasgliadau.

61. Yn ei adroddiad interim, argymhellodd yr Arglwydd Hutton fod hirhoedledd cynyddol a'r anghydbwysedd rhwng cyfraniadau cyflogwyr a chyflogeion yn rhesymau cadarn dros wneud newidiadau byrdymor i gyfraniadau pensiwn tra'n aros i'r cynlluniau gael eu hailgynllunio i raddau mwy sylweddol. Daeth i'r casgliad fod rhesymeg glir dros gynyddu cyfraniadau aelodau er mwyn sicrhau y caiff costau eu dosbarthu'n decach rhwng trethdalwyr ac aelodau.

62. Yn y pen draw, mae'r Adran o'r farn bod y cynigion ar gyfer diwygio'r TPS, gan gynnwys y cynnig i gynyddu cyfraniadau, yn deg ac yn gymesur wrth gyflawni nod y polisi, sef sicrhau bod y cynllun yn gynaliadwy ac yn deg i aelodau a threthdalwyr. Mewn perthynas â hynny, mae'r Adran yn siŵr y bydd y Cynllun yn parhau i ddarparu pensiynau da i athrawon sydd ymhlith y rhai gorau sydd ar gael.

63. Fodd bynnag, bydd yr Adran yn parhau i sicrhau y caiff y safbwyntiau a gyflwynir eu hystyried yn llawn wrth lunio'r rheoliadau/deddfwriaeth derfynol.

## Crynodeb o'r Casgliadau a'r Camau Nesaf

64. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion, gan gynnwys y rheini gan undebau, cyflogwyr ac aelodau, yn gwrthwynebu'r polisi i gynyddu cyfraniadau pensiwn a'r diwygiadau arfaethedig i reoliadau'r TPS.

65. Fodd bynnag, o'r ymatebion a gafwyd, a'r mân newidiadau i lefelau eithrio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae'r Adran wedi dod i'r casgliad bod y cynigion yn cynrychioli ffordd resymol a chymesur o gyflawni ei nod polisi. Lle codwyd pryderon, mae'r Adran wedi darparu ymatebion. Ar sail yr amrywiol ddadleuon a gyflwynwyd, cynigion yr Adran sy'n darparu'r sicrwydd gorau y mae'n rhesymol ei ddarparu i'r athrawon sy'n ennill leiaf, o gymharu â'r effaith ganlyniadol ar gyfer y rheini sy'n ennill fwyaf.

66. Bydd yr Adran yn parhau i fonitro'r sefyllfa wrth ystyried y cynigion ar gyfer y strwythur haenog a'r dull dosbarthiadol ar ôl 2015.

67. Caiff strategaeth gyfathrebu ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod pob aelod, a chyflogwr, yn glir ynghylch y buddiannau sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Bydd hyn yn sicrhau bod cyflogeion yn gwneud penderfyniadau cwbl hyddysg o ran cymryd rhan yn y cynllun, gyda'r nod o leihau'r risg y ceir cynnydd sylweddol mewn cyfraddau eithrio.

68. Gwneir diwygiadau priodol i Reoliadau Pensiynau Athrawon 2010 er mwyn rhoi grym cyfreithiol i'r newidiadau arfaethedig ar 1 Ebrill 2014.

## Mater Polisi 3 - Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013

## Cefndir

69. Nid ymgynghorodd yr Adran ar newidiadau i'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013, ond defnyddiodd yr ymgynghoriad hwn fel cyfle i nodi sut y gwneir newidiadau arfaethedig i reoliadau'r cynllun o ganlyniad i Ddeddf 2013.

70. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 17 Gorffennaf 2013 a'i phrif ddiben yw galluogi i gyplau o'r un rhyw briodi.

71. Cynigir y bydd is-ddeddfwriaeth, a wneir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), y mae Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn rhan ohoni, ymhlith pethau eraill, yn diwygio Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2010 er mwyn cadw'r polisi presennol y dylai cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus drin cyplau priod o'r un rhyw fel partneriaid sifil, ac

nid fel cyplau priod o'r rhyw arall. Bydd y ddarpariaeth hefyd yn llywodraethu'r ffordd y caiff cyplau sy'n cyd-fyw eu trin.

## Ymatebion i'r Ymgynghoriad

72. Er mai dim ond er gwybodaeth y cynhwyswyd y mater hwn yn y ddogfen ymgynghori, o'r 47 o ymatebion cyffredinol, gwnaeth 28 ohonynt sylwadau ar y mater hwn.

73. Un o ganlyniadau'r penderfyniad i ehangu priodas i gyplau o'r un rhyw yng Nghymru a Lloegr yw bod yn rhaid i'r TPS, ynghyd â chynlluniau eraill y gwasanaeth cyhoeddus, ddarparu ar gyfer cynnig budd-daliadau teulu a marwolaeth priodol i oroeswyr priodasau o'r fath. Yn gyffredinol, bydd budd-daliadau i oroeswyr ar gyfer cyplau priod o'r un rhyw yn gyson â'r budd-daliadau a gynigir i bartneriaid sifil a gweddwon priodas cyplau o'r rhyw arall. Mewn cynlluniau gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y TPS, mae hyn yn golygu y bydd budd-daliadau yn gyffredinol yn seiliedig ar y gwasanaeth a gronnwyd ers 1988. Mae gweddwon priodas rhwng cyplau o'r rhyw arall yn cael budd-daliadau yn seiliedig ar y gwasanaeth a gronnwyd cyn 1988 ac ar ôl 1988.

74. Cododd pob un o'r 28 o ymatebion fudd-daliadau i oroeswyr fel mater i'w ystyried ymhellach, gan ddadlau bod methu â chynnig budd-daliadau cyfwerth i'r budd-daliadau sydd ar gael i weddwon yn annheg. Ar y cyfan, fe'u codwyd ar ffurf templed o lythyr a lawrlwythwyd o wefan undeb, er bod nifer wedi defnyddio templed tebyg.

## Ymateb y Llywodraeth

75. Cynhaliwyd dadl gynhwysfawr yn y Senedd ar y darpariaethau ar fudd-daliadau fel rhan o gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus i oroeswyr priodasau cyplau o'r un rhyw fel rhan o'r broses ar gyfer pasio'r Bil Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw). Gan fod y Ddeddf, a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 17 Gorffennaf 2013, yn dynodi'r dull gweithredu i'w ddefnyddio mewn perthynas â budd-daliadau i oroeswyr, dylid diwygio'r TPS i gydymffurfio â hi.

    Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o'r gwahaniaethau o ran budd-daliadau i oroeswyr mewn cynlluniau pensiynau galwedigaethol rhwng grwpiau gwahanol, a chostau ac effeithiau gwneud unrhyw newidiadau i leihau neu i ddileu'r gwahaniaethau hyn. Yn unol ag adran 16 o'r Ddeddf, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi canlyniad yr adolygiad o fudd-daliadau i oroeswyr cyn 1 Gorffennaf 2014. Bydd yr Adran yn ystyried p'un a oes angen unrhyw newid i'r TPS yn dilyn yr adolygiad hwnnw.

Department for Education

(h) Hawlfraint y Goron 2014

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, yn unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn: www.education.gov.uk/contactus

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein yn: https://www.gov.uk/government/publications

Reference: DFE-00056-2014